**Ken Skates AS/MS**
**Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Minister for Economy, Transport and North Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1113
Ein cyf/Our ref KS/07491/20

Janet Finch-Saunders AS
Aelod o'r Senedd

Government.Committee.Business@llyw.cymru

13 Ionawr 2021

Annwyl Janet

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 16 Rhagfyr ar ran y Pwyllgor Deisebau ynglŷn â Deiseb P-05-1113, Cyflwyno mesurau diogelwch ar y ffyrdd ar yr A44 yn Llanbadarn Fawr, Ceredigion.

Mae gwella diogelwch ar y ffyrdd yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac rydym yn gweithio'n barhaus gydag awdurdodau lleol, yr heddlu a phartneriaid eraill i nodi lleoliadau lle mae angen mesurau diogelwch ar y ffyrdd.

Bwriedir gosod croesfan Sebra yn ystod y flwyddyn ariannol hon, ar ochr Aberystwyth o Lanbadarn Fawr cyn arwydd y pentref, ar ôl i gynghorwyr lleol wneud ceisiadau i'r perwyl hwnnw yn y gorffennol. Rydym yn cydnabod yr anhawster y mae cerddwyr yn ei gael wrth groesi'r ffordd ac rydym yn bwriadu edrych eto ar yr angen am groesfannau, yn ogystal ag ar yr angen i ddarparu llwybrau i gerddwyr a beicwyr ar yr A44 drwy Lanbadarn Fawr. Fodd bynnag, oherwydd nifer y prosiectau sy'n disgwyl am gyllid, ni fydd hynny'n dechrau tan 2021/22.

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi gwneud rhywfaint o waith yn ddiweddar hefyd wrth iddo ymgymryd â chynllun i greu Cysylltiad Teithio Llesol rhwng Llanbadarn ac Ysgol Penweddig, gan ledu'r droedffordd ar gyfer cerddwyr a beicwyr gerllaw'r A44. Efallai y byddwn hefyd yn ystyried rhagor o fesurau Teithio Llesol ar hyd y llwybr hwn fel rhan o raglen a fydd yn cael ei rhoi ar waith dros y tymor hwy.

Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen 20mya wedi cwblhau eu gwaith ac wedi cyhoeddi eu hadroddiad. Rydym wedi derbyn holl argymhellion y Grŵp ac mae'n hymateb, sy'n amlinellu sut y bwriedir bwrw ymlaen â phob un o'r argymhellion hynny, i'w weld yma, Bwriedir i'r terfyn cyflymder safonol o 20mya ddod i rym ym mis Ebrill 2023. Gellir ystyried gostwng y terfyn cyflymder presennol ar yr A44 drwy Lanbadarn Fawr fel rhan o'r gwaith hwnnw, ond bydd angen edrych ar hynny yn unol â'r meini prawf ar gyfer eithriadau a bydd angen ymgynghori â'r gymuned. Yr awdurdod lleol fyddai'n arwain yr ymgynghoriad hwnnw.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn y cyfamser, rydym yn parhau i fynd ati'n rheolaidd, yn unol â'r Canllawiau ar Osod Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru, i adolygu'r terfynau cyflymder ar y rhwydwaith cefnffyrdd, gan ystyried data fel gwrthdrawiadau sydd wedi achosi anafiadau personol, geometreg y ffordd, a'r defnydd a wneir gan gerddwyr a beicwyr. Ar sail y data cyfredol, nid ydym yn bwriadu gostwng y terfyn cyflymder ar y rhan hon o'r ffordd ar hyn o bryd, ond byddwn yn parhau i fonitro'r angen am newid o'r fath.

Gan Bwyll, y Bartneriaeth Diogelwch ar y Ffyrdd, sy'n gyfrifol am orfodi terfynau cyflymder, ac os oes gennych unrhyw bryderon am gyflymder traffig, byddwn yn annog eich etholwyr i dynnu sylw at hyn yn uniongyrchol drwy'r dudalen hon ar y we: https://gosafe.org/contact-us/community-concern/?lang=cy

Yn gywir



**Ken Skates AS/MS**
Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru
Minister for Economy, Transport and North Wales